

Cofnodion Cyngor Bro Trelech a'r Betws Community Council Minutes

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Lun y 4ydd o Fawrth 2024 am 8.00yh yng Nghanolfan Gymunedol Penybont.

Cynghorwyr yn bresennol: Derrick Harries (Cadeirydd), Andrew Jones, Alyson Harries, John Phillips, Ambrose Lewis, Eirian Howells, Dyfed Davies & Ann Sillars.

Yn cymryd y Cofnodion: Liza Jones (clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau wrth Linda Davies, Arwyn Jones ac y Cynghorydd Sir Jean Lewis
2. **Sylwadau'r Cadeirydd:**
Diolchodd Derrick Harries i bawb am fynychu.
3. **Datgan Buddiannau:**
Ni nodwyd unrhyw datgan budd.
4. **Cadarnhau Cofnodion y cyfarfod blaenorol:**
Roedd cofnodion y cyfarfod o'r 8fed o Ionawr 2024 wedi eu dosbarthu i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir ac fe'u llofnodwyd.
5. **Trafod materion sy'n codi o'r cofnodion:**
 - Roedd y clerc wedi cael copi o'r Gofrestra Tir am yr ardal o dir o flaen Melin Dinas. Roedd yn cadarnhau perchnogaeth y Cyngor Cymuned oedd. Cytunwyd byddai'r clerc yn edrych i mewn i atgyweirio'r ffens.

6. Gohebiaeth

- a. Roedd Stephen Hill o Gyfreithwyr Price & Son wedi danfon cais i'r ffurflennu trosglwyddo tir i Ryan Evans cael eu ail-llofnodi gan nad oedd y Gofrestra Tir wedi cymeradwyo y rhai cyntaf. Cwblhawyd hyn.
- b. Roedd ebyst parthed heolydd wedi eu cau wedi cael eu danfon ymlaen i'r cynghorwyr.
- c. Roedd cynnod enwebu cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i Fwrdd Llywodraethol Ysgol Hafodwenog ar agor. Yn eu habsenoldeb enwebwyd yn unfrydol fod Linda Davies yn ail-gynrychiolu'r Cyngor. Byddai'r clerc yn gwirio hyn gyda Linda Davies.
- ch. Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin wedi danfon yr anfoneb blynyddol am newid y bylbiau golau am £333.60. Hwn oedd yr anfoneb oedd yn cael ei dalu dros saith mlynedd. Awdurdodwyd i'w dalu.
- d. Roedd y clerc wedi cwblhau yr ail-ddatganiad i'r Rheolwr Pensiynnau.
- dd. Cafwyd y cynnig o bortread am ddim o'r Brenin Sairl III ei drafod.
- e. Trafodydd y pryder nad oedd yr heol yn arwain at y twmpath hanesyddol yn Roscrugebolion o Lleine wedi cael ei gofnodi ar fap penodedig. Cytunwyd i ymchwilio i gofnodi defnydd hanesyddol o'r heol o Lleine, trwy Pantyffynnon ac allan i Rephidim. Byddai'r clerc yn cydweithio gyda'r Cyngor Sir.
- f. Ceisiadau Cynllunio:
- PL/07103 – Ffurio bwlch amaethyddol newydd @ Tir ger Pantyberth, Trelech, SA33 6RX.
- PL/07352 – Ail-fodelu ffermdy @ Pantyberth, Trelech, SA33 6RX

7. Cyllid - Cyfrif Busnes Cyfredol £516.10

8. Unrhyw Fater Arall

- Cytunwyd i ail-awdurdodi DMB Davies fel yr archwilydd mewnol.

- Codwyd pryder am ffens yn pwyso allan i'r cilfan ger Fronllan. Byddai'r clerc yn cadarnhau gyda phwy roedd y cyfrifoldeb amdano.
- Adroddwyd tyllau ar yr heolydd
 - O Groesffordd i Fronllan
 - O Y Ficerdy a Brynamllwg
- Codwyd pryder fod swyddog gorfodaeth wedi ymweld a'r cyffordd gyferbyn a Pantyberth. Roedd y swyddog wedi gorfodi l fwllch cael ei gau a phlannu coed yno, ond nid oedd unrhyw sôn am y coed roedd wedi cael eu plannu yr ochor draw a oedd yn tarfu yn sylweddol ar y gallu i weld traffig yn dod o'r pentref. Byddai'r clerc yn ymchwilio.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd pawb a chaëwyd y cyfarfod am 8.50yh.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 6ed o Fai 2024.